HORIZON NUCLEAR POWER

A UK company of E.ON and RWE

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
T +44 (0) 845 300 6816

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

NEWS RELEASE

Gorffennaf 2011

Cyhoeddi lleoliadau newydd ar gyfer cymorthfeydd agored Wylfa

Gall aelodau'r cyhoedd a busnesau lleol gwrdd â thîm Pŵer Niwclear Horizon a holi cwestiynau ynglŷn â'u cynigion yn ystod cyfres o gymorthfeydd agored newydd yn ystod yr haf eleni.

Rhwng Gorffennaf a Medi, bydd Pŵer Niwclear Horizon yn parhau i gynnal sesiynau galw heibio misol mewn lleoliadau o amgylch Ynys Môn ac nawr mae wedi ychwanegu lleoliadau newydd i alluogi mwy o bobl i fynychu cymhorthfa agored yn eu hardal nhw.

Dywedodd Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safle gyda Pŵer Niwclear Horizon: "Rydym yn falch iawn ein bod yn cynnal ein cymorthfeydd agored yn Llangefni a Phorthaethwy gan ein bod eisiau ei gwneud hi mor gyfleus â phosib i bobl leol ddod draw a holi cwestiynau. Mae ein cymorthfeydd agored yng Nghemaes wedi bod yn boblogaidd iawn ac rwy'n siŵr y bydd nifer o bobl yn mynychu yn y lleoliadau newydd hefyd."

Bydd aelodau o'r Tîm Datblygu Safle a'r Tîm Masnachol ar gael i ateb cwestiynau yn y cymorthfeydd agored, a fydd yn digwydd rhwng hanner dydd ac 8:00pm ar y trydydd dydd Llun o bob mis yn y lleoliadau canlynol:

Gorffennaf 18fed – Gwesty'r Bull, Llangefni

Awst 22ain – Neuadd y Pentref, Cemaes

Medi 19eg – Gwesty'r Fictoria, Porthaethwy

Gall unrhyw un sydd â chwestiynau ynglŷn â'r prosiect hefyd gysylltu â thîm Wylfa trwy ffonio'r llinell wybodaeth ar 0800 954 9516 neu trwy anfon e-bost at wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com

GORFFEN

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Leon Flexman – 07989 493320 neu
leon.flexman@horizonnuclearpower.com

Claire Loveday – 07717 300379 neu
claire.loveday@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion

Pŵer Niwclear Horizon Ltd. Mae Pŵer Niwclear Horizon yn fenter ar y cyd a sefydlwyd yn 2009 gan E.ON UK a RWE npower. Mae'r cwmni'n datblygu cynigion ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac Oldbury-on-Severn yn Swydd Gaerloyw. Mae gan ein cyfranddalwyr fuddiannau mewn 23 gorsaf bŵer niwclear yn yr Almaen a Sweden ac maent yn gyd berchnogion ar dair gorsaf yn yr Almaen. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.horizonnuclearpower.com